**PWYLLGOR CRONFA BENSIYNAU CLWYD**
**11 Chwefror 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd Cyngor Sir y Fflint, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, am 9.30am ddydd Mawrth, 11 Chwefror 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Haydn Bateman (Is-Gadeirydd yn y Gadair)**
Y Cynghorwyr: Ralph Small, Billy Mullin, Kevin Hughes, Adele Davies-Cooke – ymunodd ar eitem 99.

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Y Cynghorydd Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), y Cynghorydd Andrew Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwyr Eraill y Cynllun), a Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun) – hyd at eitem 103.

**HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** Mr Phil Pumford (Cynrychiolydd Aelodau Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau), Elaine Williams (Cynrychiolydd Aelodau Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Huw Llewellyn Jones.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Panel Ymgynghorol yn cynnwys: Colin Everett (Prif Weithredwr) – hyd at eitem 101, Philip Latham (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Karen McWilliam (Cynghorydd Annibynnol – Aon), Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa – Mercer), Paul Middleman (Actiwari't Gronfa – Mercer).

Swyddogion/Ymgynghorwyr yn cynnwys: Debbie Fielder (Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Karen Williams (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau), Nick Buckland (Ymgynghorydd Buddsoddiadau Cronfa – Mercer), Nick Page (Cynghorydd Risg – Mercer), Megan Fellowes (Dadansoddwr Actactiwaraidd – Mercer – cymryd cofnodion), Ieuan Hughes (Hyfforddai Buddsoddiadau Graddedig).

Cadarnhawyd y bydda'r Cynghorydd Bateman yn cyflawni rôl y Cadeirydd ar gyfer y tri mis nesaf cyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.

97. **DATGANIADAU O GYSYLLTIAD (yn cynnwys gwrthdaro buddiannau)**

Cyfeiriodd Mrs McWilliam at y tendrau sydd ar y gweill ar gyfer rolau Ymgynghorydd Buddsoddi a Chynghorydd Llywodraethu Annibynnol yn y Diweddariad Llywodraeth (eitem 8 ar y rhaglen) gan ddweud y byddai Aon yn cyflwyno tendr ar gyfer un o'r contractau hyn a pe byddai trafodaethau yn digwydd ar hyn, byddai'n gadael y cyfarfod. Nododd Mercer gysylltiad yn yr un modd.

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad arall.

98. **COFNODION 28 Tachwedd 2019**

Ar dudalen 10, holodd Mr Hibbert os oedd y mater o Gynrychiolaeth Aelodau'r Cynllun wedi cael ei ystyried yn y cyfarfod PPC JGC ym mis Ionawr. Dywedodd Mrs Fielder y cynhaliwyd cyfarfod JGC ym mis Rhagfyr ond nid oedd unrhyw gynrychiolaeth o'r Gronfa yno ac nid oedd yr un cyfarfod ym mis Ionawr. Bydd cyfarfod nesaf JGC ym mis Mawrth a disgwylir y bydd Cynrychiolaeth Aelodau'r Cynllun JGC ar y rhaglen.

Nododd Mrs McWilliam y cyfeiriad ar yr ymarfer cywiro GMP ar dudalen 11 a dywedodd y bydd yr ymarfer hwn yn parhau hyd at fis Mehefin 2020 o leiaf.

Yna cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyniwyd, cymeradwywyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod ar 28 Tachwedd 2019 gan y Cadeirydd.

99. **DATGANIAD STRATEGAETH FUDDOSDDI A'R POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL**

Aeth Mr Buckland a Mr Lathan drwy'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi diweddaraf gan nodi'r pwyntiau allweddol canlynol;

- Gwnaed y rheoliadau oedd yn gofyn i gronfeydd gynhyrchu Datganiad Strategaeth Fuddsoddi yn 2016.
- Roedd yn ofynnol i'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi cyntaf gael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2017.
- Mae'r rheoliadau hyn yn dal mewn lle; fodd bynnag disgwylir rheoliadau newydd yn ddiweddarach yn 2020. O ganlyniad, efallai bydd angen addasu'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi ymhellach.
- Mae canllawiau statudol yn datgan nad all polisïau'r Gronfa ar fuddsoddiadau fynd yn erbyn polisi Llywodraeth.
- Mae nifer o ofynion allweddol ar gyfer cynhwysiant mewn Datganiad Strategaeth Fuddsoddi ac amlygodd Mr Buckland y rhain, gan gynnwys arallgyfeirio ar fuddsoddiadau ac ystyriaeth o risgiau.

Amlygodd Mr Latham y newidiadau a wnaed i'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

Y newid cyntaf oedd cynnwys amcan gyllido a buddsoddi newydd ar waelod tudalen 4 y Datganiad mewn perthynas â chyfuno asedau trwy'r PPC. Cytunodd y Pwyllgor â'r geiriad arfaethedig.

Gofynnodd y Cyng. Williams pe byddai achos y Goruchaf Lys yn ymwneud â'r Palestine Solidarity Campaign a Pholisi'r Llywodraeth yn rhwystro polisi

Buddsoddi'n Gyfrifol y Gronfa. Dywedodd Mr Buckland, bod y ffordd mae'r polisi Buddsoddi'n Gyfrifol wedi cael ei ysgrifennu yn golygu nad oes unrhyw wrthdaro yn ei farn ef. Dywedodd mai'r mater mwyaf oedd fod rhai Cronfeydd wedi dadfuddsoddi oherwydd credoau moesegol penodol. Dywedodd Mr Buckland ein bod yn aros am ganlyniadau'r achos llys a bydd yn dychwelyd at y mater, a ddylai fod yn wybyddus dros y misoedd nesaf.

Gofynnodd Mr Everett pam bod dau ddosbarth asedau, amaethyddiaeth a choed, wedi cael eu cynnwys o fewn y Datganiad, ac nid mewn categorïau megis ynni adnewyddadwy. Eglurodd Mr Harkin bod isadeiledd fel dosbarth ased yn cynnwys ystod eang o fuddsoddiadau gan gynnwys ynni adnewyddadwy. Cytunodd y byddai'n ailystyried y categorïau.

Holodd y Cadeirydd sut oedd meincnod y Gronfa'n cael ei benderfynu. Dywedodd Mr Buckland bod y meincnod yn gyfuniad o holl feincnodau o ddosbarthiadau asedau'r Gronfa. Er enghraifft, bydd gan y marchnadoedd preifat ac ecwiti feincnod eu hunain, ac wrth adio'r rhain gyda'i gilydd, dyma sy'n penderfynu meincnod cyffredinol y Gronfa.

Ychwanegodd Mr Latham bod ystodau strategol wedi'u nodi ar dudalen 12 y Datganiad. Nododd bod ystod amodol yn cael ei ddefnyddio os oes risgiau mawr i'r Gronfa, ac mewn achosion o'r fath bydd swyddogion, gan ystyried cyngor gan Ymgynghorwyr Buddsoddi'r Gronfa, yn gwneud penderfyniadau sy'n symud y dyraniadau asedau tu hwnt i'r ystod strategol, i'r ystod amodol. Gofynnodd Mrs McWilliam os oedd yr ystod amodol wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen. Cadarnhaodd Mr Latham nad oedd yn gallu cofio sefyllfa eithafol, ond mae wedi cael ei ddefnyddio pan oedd y Gronfa yn mynd trwy drawsnewidiad.

Awgrymodd Mrs McWilliam y dylid addasu'r geiriad ar dudalen 21 y Datganiad. Roedd y geiriad yn datgan;

*Yn y tymor hirach, yn amodol ar gwrdd â'r amcanion y cyfeirir atynt uchod, mae Cronfa Clwyd wedi ymrwymo i fuddsoddi ei holl asedau drwy'r PPC.*

Cynigodd Mrs McWilliam y dylai'r geiriad gyd-fynd yn agosach gyda'r amcan cyfuno ar dudalen 4 y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi. Cefnogodd Mr Everett yr awgrym hwn a chytunodd y pwyllgor bod angen addasu'r geiriad yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi terfynol.

Mae'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi yn datgan y bydd y Gronfa yn cyflawni'r targed ymhen tair mlynedd. Gofynnodd Mrs McWilliam o bryd h.y. pa flwyddyn y bydd hyn yn cael ei fuddsoddi. Cyfeiriodd Mr Buckland at y ddogfen a oedd yn datgan y bydd hyn rhwng 2020-2023.

Amlygodd Mrs McWilliam i'r Pwyllgor bod ganddi fân newidiadau i fwydo i'r Datganiad. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi diwygiedig yn amodol bod y mân newidiadau yn cael eu gwneud gan y swyddogion i gynnwys y pwyntiau a drafodwyd.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi, gwneud sylwadau ac yn cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi diwygiedig yn amodol bod y newidiadau cytunedig yn cael eu gwneud.

100. **DIWEDDARIAD PRISIAD ACTIWARAIDD A DATGANIAD STRATEGAETH GYLLIDO**

Nododd Mr Middleman bod y Datganiad Strategaeth Gyllido drafft wedi cael ei drafod yn y cyfarfod ym mis Medi ac aeth yr ymgynghoriad gyda chyflogwyr rhagddo ym mis Tachwedd (gan gynnwys y Cyd-Gyfarfod Ymgynghorol Blynyddol a chyfarfodydd gyda chyflogwyr unigol) a gwahoddwyd sylwadau. Nid oes unrhyw newidiadau materol i'r drafft ond mae rhai mân newidiadau o ganlyniad i drafodaethau gyda chyflogwyr ac hefyd oherwydd diffyg cynnydd ar faterion cenedlaethol penodol a newidiadau strwythurol.

Rhoddodd Mr Middleman y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar sefyllfa'r ymgynghoriadau ar y gylchred prisiad 4 mlynedd a Bargen Deg a oedd i fod i gyflwyno statws gwarchodedig i aelodau a'r llwybr Cyflogwr Tybiedig. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad prisiad 4 mlynedd ac nid yw'r ymgynghoriad Bargen Deg wedi symud ymlaen. Ni ragwelir y bydd y naill na'r llall yn symud ymlaen cyn y bydd angen arwyddo'r Datganiad Strategaeth Gyllido, felly mae'r geiriad cysylltiedig wedi cael ei dynnu o'r Datganiad Strategaeth Gyllido. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys eto yn ôl yr angen a'i ddychwelyd i'r Pwyllgor unwaith y bydd diweddariad gan yr ymgynghoriadau.

Gwnaeth Mr Middleman y pwyntiau allweddol canlynol;

- Pan mae Mercer yn gosod rhagdybiaethau, yn arbennig o ran chwyddiant, mae Mercer yn edrych ar yr amcangyfrif gorau o RPI o elw'r farchnad ar Fondiau Llywodraeth. Yna mae Mercer yn amcangyfrifo chwyddiant CPI (y cynnydd a roddir ar ddyledion) trwy dynnu 1% y flwyddyn o'r RPI (h.y. bwlch RPI-CPI o 1% y flwyddyn).
- Yn dilyn y newid arfaethedig i RPI i fod yn debycach i'r CPIH yng nghyhoeddiad mis Medi 2019, roedd chwyddiant RPI wedi newid. Er nad yw hyn yn effeithio ar y rhagdybiaethau ar y dyddiad prisio (31 Mawrth 2019), mae'n bwysig bod y Gronfa yn cydnabod y diweddariad hwn yn y Datganiad Strategaeth Gyllido. Pe na byddai cydnabyddiaeth i hyn, gallai arwain at ddefnyddio rhagdybiaeth ar gyfer CPI (yn seiliedig ar y bwlch RPI / CPI presennol) sy'n rhy isel ac felly'n tanbrisio atebolrwyddau mewn cyfrifon yn y dyfodol. Nodwyd y byddai hyn yn cael ei drafod mewn mwy o fanylder yn yr eitem nesaf ond y cynnig yw lleihau'r bwlch CPI i RPI i 0.7% y flwyddyn i wneud iawn am hyn. Disgwylir i'r ymgynghoriad ar y newid fod yn rhan o'r Gyllideb ar 11 Mawrth 2020 a bydd y sefyllfa'n cael ei gadw dan adolygiad.

- Roedd y lefel cyllido cyffredinol yn 91% ar y dyddiad prisio, gyda diffyg ariannol o £175 miliwn.
- Roedd costau buddion parhaus o ganlyniad i'r prisiad yn 17.3% o dâl pensiynadwy.
- Bydd cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn cael ei weithredu ar y sail hon o 1 Ebrill 2020.

Ar dudalen 25, gofynnodd y Cadeirydd pam fod y cyfnod adfer diffyg cyfartalog wedi cynyddu o 12 mlynedd yn y Datganiad Strategaeth Gyllido i 13 mlynedd. Nododd Mr Middleman mai cyfartaledd oedd hwn a bod gan gyflogwyr gwahanol (gan gynnwys y Cynghorau) gyfnodau gwahanol sy'n briodol i'w hamgylchiadau a bod y mwyafrif wedi lleihau 3 mlynedd ond roedd 2 Gyngor Unedol wedi lleihau 2 flynedd. Nodwyd hefyd mai'r cyfres cyffredinol o baramedrau sy'n cyfrif h.y. mae rhagdybiaethau eraill megis cyfradd gostyngiad yn gallu bod yn bwysicach. Yn ogystal â hynny, cafwyd trafodaethau dwys mewn perthynas â hyn, fforddiadwyedd y cyfraniadau yn gyffredinol gan gynnwys lwfans a gyfer costau McCloud. Rhaid cael cydbwysedd cytunedig wrth osod cynllun ariannu oherwydd bod angen iddo fod yn deg i holl drethdalwyr (cenedlaethau'r dyfodol a phresennol) a gan fod y cyfnod adfer ar gyfer y Gronfa yn eithaf byr, roedd Mr Middleman yn gyfforddus ar y cyfan bod hwn yn sefyllfa deg. Ychwanegodd Mr Everett y penderfynwyd ymestyn cyfnod adfer Cyngor Sir y Fflint o flwyddyn er mwyn helpu i gydbwyso'r cyllidebau, a credai bod hyn yn gam rhesymol a gytunwyd gyda'r Actiwari ar ôl cyfnod o drafodaethau gwybodus.

O ran dyfarniad McCloud, nododd Mr Middleman bod rhan allweddol o osod y strategaeth yn edrych ar ganiatáu costau posibl dyfarniad McCloud yn y cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa a'i peidio. Gan fod y cyflogwyr wedi penderfynu ei gynnwys yn uniongyrchol (yn hytrach na'i ystyried fel risg i'r gyllideb yn y dyfodol) roedd hyn yn rhoi mwy o goel i'r casgliad bod y cyfnod adfer yn deg.

Holodd Mrs McWilliam pam nad oedd y cysylltiad rhwng RPI a CPI wedi cael ei restru fel un o'r risgiau i'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi. Dywedodd Mr Middleman ei fod yn newid strwythurol ond heb wahaniaeth gwirioneddol o unrhyw newid arall i chwyddiant (oedd wedi cael eu cynnwys). Nid yw Mercer yn gwybod sut fydd hyn yn cael ei amlygu eto, ac er nad oes dim drwg i'w gynnwys yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi nid ydynt yn credu bod angen ei gynnwys ar y pwynt hwn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad a'r gweithgarwch ers cyfarfod ac ymgynghoriad mis Medi 2019.
(b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Cyllido Terfynol.

101. **DIWEDDARIAD FFRAMWAITH RHEOLI RISG, LLWYBR HEDFAN A CHYLLID**

Cyflwynodd Mr Page ei hun i'r bwrdd a chyflwynodd y sesiwn hyfforddi cyflwyniad i'r llwybr hedfan. Bydd sesiynau manwl pellach yn cael eu trefnu i roi mwy o fanylion ar elfennau amrywiol. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys prif amcanion y llwybr hedfan a gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol;

- Nod y strategaeth fuddsoddi yw darparu enillion uwchben chwyddiant, yn benodol chwyddiant CPI, o ystyried bod dyledion y Gronfa yn cynyddu gyda chwyddiant.
- Mae enillion uwch uwchben chwyddiant yn golygu bod angen cyfraniadau cyflogwyr llai tuag at fuddion aelodau. I'r gwrthwyneb, byddai enillion llai uwchben chwyddiant yn golygu gofynion cyfraniadau uwch i gyflogwyr.
- Er mwyn creu enillion, rhaid cymryd risg. Fodd bynnag, mae angen dod o hyd i gydbwysedd rhwng cymryd digon o risg i sicrhau bod cyfraniadau'n fforddiadwy, ond heb ormod o risg a all arwain at golledion ar fuddsoddiadau gan olygu cyfraniadau uwch yn y dyfodol. Yr amcan trosfwaol yw bod yn deg i drethdalwyr presennol ac yn y dyfodol trwy gael cydbwysedd rhesymol.
- Nod y strategaeth llwybr hedfan yw rheoli risgiau buddsoddi i wella fforddiadwyedd a sefydlogrwydd cyfraniadau cyflogwyr.
- Mae'r llwybr hedfan yn ddull rheoli risg yn hytrach na mecanwaith dileu risg, ac yn gweithio ar y cyd gyda strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.
- Mae'r llwybr hedfan yn ceisio rheoli (h.y. mantoli)'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r asedau a'r atebolrwyddau. Fodd bynnag, nid yw'n rheoli holl risgiau buddsoddi nac atebolrwydd; yn hytrach mae'n asesu os yw buddion rheoli risg penodol yn fwy na'r costau o wneud hynny. Mae ystyriaethau cost yn ymwneud â ffioedd rheolwr ac ymgynghori, costau trafodion, gofynion llywodraethu dechreuol a pharhaus ac effaith gyffredinol a thebygolrwydd o risg yn amlygu'n negyddol fel nad yw'r amcan yn cael ei fodloni.
- Risg fwyaf y Gronfa yw cynnydd mewn chwyddiant, o ystyried bod buddion aelodau h.y. atebolrwyddau'r Gronfa, yn gysylltiedig â chwyddiant. Caiff hyn ei reoli drwy strategaeth Buddsoddiad a Gymhellwyd gan Atebolrwyddau, gyda'r nod o wneud y mwyaf o sicrwydd enillion dros chwyddiant pan mae cyfleoedd y farchnad yn codi trwy fecanwaith sbarduno yn seiliedig ar arenillion. Roedd y lefel mantoli yn flaenorol ar 20% ar gyfer cyfraddau llog a 40% ar gyfer chwyddiant. Mae'r Gronfa wedi penderfynu lleihau chwyddiant i 20% dros dro yng ngoleuni risg diwygio RPI a drafodwyd yn fanylach ar ôl yr hyfforddiant.
- Mae'r llwybr hedfan hefyd yn rheoli risgiau negyddol ecwiti drwy strategaeth amddiffyn ecwiti, a'r risg mae sterling yn ei godi, drwy leihau gwerth asedau tramor yn nhermau GBP, drwy strategaeth mantoli cyfredol.
- Mae'r llwybr hedfan yn ceisio gweithredu strategaethau rheoli risg mewn modd effeithlon. Caiff hyn ei dystiolaethu gan y dull "rhaeadr"

sicrwydd cyfochrog, sy'n sicrhau bod y strategaethau yn cael eu cefnogi gan ddigon o sicrwydd cyfochrog (cronfa arian o asedau sy'n cefnogi'r fframwaith fantoli) ond nid gormod fel ei fod yn gweithredu fel rhwystr ar enillion y Gronfa. Mae sicrwydd cyfochrog dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn arenillion uwch ond cronfeydd busnes dyddiol er mwyn creu enillion uwch, ond mae ar gael ar gyfer sicrwydd cyfochrog i gynnal safle mantoli os fydd ei angen ar fyr rybudd mewn modd llywodraethu isel.

- Mae'r llwybr hedfan yn gweithredu trwy gyfres o gyfarfodydd y Grŵp Rheoli Risg a Chyllid gydag ymgynghorwyr a swyddogion bob chwarter, adrodd bob mis a bob chwarter a monitro lefel cyllid a sbardunau marchnad yn ddyddiol. Mae hyn yn caniatáu i gyfleoedd gael eu canfod ac mae gan y Pwyllgor bwerau dirprwyedig i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd i weithredu ar y cyfleoedd hynny yn amserol.
- O ganlyniad uniongyrchol i weithredu'r llwybr hedfan, mae'r diffyg ariannol £250 miliwn yn well (popeth arall yn gyfartal) ers ei sefydlu yn 2014, sy'n gyfystyr ag oddeutu £15miliwn-£20miliwn y flwyddyn o arbedion cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr. Yn amlwg mae hyn yn effaith gadarnhaol sylweddol ar gyfer y Gronfa a'i gyflogwyr.

Gofynnodd Mrs McWilliam sut oedd yr LDI yn rheoli risgiau atebolrwydd ar sleid 6. Cadarnhaodd Mr Page ei fod yn edrych ar chwyddiant a chyfraddau llog, sydd gyda'i gilydd yn darparu arenillion/enillion dros chwyddiant gyda lefel uchel o sicrwydd. Mae hyn yn cysylltu â phrif amcan y Gronfa o gyflawni enillion uwchben chwyddiant gyda sicrwydd cynyddol o ddarparu fforddiadwyedd a sefydlogrwydd i gyfraniadau cyflogwyr. Eglurodd Mr Page ei fod yn bwysig bod hyn yn digwydd ar yr amser iawn neu fel arall byddai'n rhy gostus i gyflawni sicrwydd. Dyma'r rheswm bod sbardunau yn eu lle pan fydd y cyfle'n codi.

Gofynnodd Mrs McWilliam os y dylai'r Gronfa fod yn bryderus am fod yn unigryw yn y PPC drwy gael strategaeth llwybr hedfan. Cadarnhaodd Mr Page bod gan Gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eraill strategaethau rheoli risg tebyg yn eu lle a bod rheoli risg yn faes a ganolbwyntir arno'n gynyddol o fewn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Er nad yw ar Raglen y PPC eto i gynnig portffolio a all ymgorffori strategaeth o'r fath, mae Brunel wedi penodi darparwr rheoli risg sy'n debyg i'r hyn sydd gan Gronfa Bensiynau Clwyd yn ei le.

Nododd Mr Middleman nad yw holl syniadau rheoli risg a ystyrir yn cael eu gweithredu. Yn hytrach, mae risg yn cael ei asesu ac os y penderfynir ei fod yn risg materol, ystyrir ystod o opsiynau i'w reoli. Croesawodd Mr Everett fanylion pellach ar yr ystod o ddewisiadau mewn perthynas â gwneud penderfyniad er mwyn cynorthwyo i ddarparu cyd-destun pellach ar gyfer y Pwyllgor yn y dyfodol.

Yn sgil y diwygiad arfaethedig gan y llywodraeth i ddiddymu RPI, cadarnhaodd Mr Page mai'r cynllun oedd alinio'r RPI presennol i'r CPIH yn y dyfodol, sy'n debyg i'r CPI ond yn cynnwys costau tai megis newidiadau i

gyfraddau treth y cyngor. O safbwynt atebolrwydd, ni fydd unrhyw effaith gan fod yr atebolrwyddau yn gysylltiedig â'r CPI sydd ddim yn newid. Nododd Mr Page bod yr RPI ar hyn o bryd oddeutu 1% y flwyddyn yn uwch na'r CPIH, a byddai asedau mantoli chwyddiant y Gronfa sydd yn gysylltiedig â'r RPI yn gostwng mewn gwerth o dan y diwygiadau. Roedd Mr Page yn amcangyfrif mai'r senario waethaf bosibl fyddai cynnydd o £100 miliwn mewn diffyg ariannol.

Yn y Grŵp Rheoli Risg a Chyllid, trafodwyd, yn sgil y newid posibl, os y dylid ailstrwythuro'r asedau mantoli chwyddiant. Daethpwyd i'r canlyniad y dylid gostwng y gymhareb mantoli chwyddiant o 40% i 20% o ganlyniad i liniaru'r risg cyn i'r ymgynghoriad ddechrau ar 11 Mawrth. Mae'r Gronfa dal i fod yn agored i gynnydd mewn chwyddiant ac mae risg ychwanegol na fydd y diwygiad yn digwydd, a dyma yw'r rhesymeg dros leihau hanner ac nid y cyfan. Felly, byddai'r cynnydd o £100 miliwn mewn diffyg ariannol a nodwyd uchod yn £50 miliwn yn y senarios gwaethaf bosibl a fodelir. Cadarnhaodd Mr Page yn yr hirdymor, dylai'r Gronfa geisio dychwelyd i'r gyfradd mantoli chwyddiant o 40% unwaith i ganlyniad yr ymgynghoriad ddod yn gliriach. Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg o 11 Mawrth 2020 am 6 wythnos ac mae'r Canghellor wedi ymrwymo i ymateb ar hyn erbyn Gorffennaf 2020.

Gofynnodd y Cadeirydd os oedd unrhyw lwfans ar gyfer costau tai yn y CPI. Cadarnhaodd Mr Page nad yw wedi cael ei gynnwys yn y CPI ond wedi ei gynnwys yn y CPIH. CPIH yw ystadegau cenedlaethol y DU ar gyfer chwyddiant er nad yw'n cael ei ddefnyddio'n aml neu'n wybyddus.

Holodd y Cadeirydd os y disgwylir ymgynghoriad ar ostyngiad treth llywodraeth. Dywedodd Mr Middleman y byddai'n synnu petai'n cael ei gyhoeddi yn y Gyllideb hwn, ond efallai y bydd ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ar y mater o ystyried y ffynonellau o arian sydd ei angen gan y Llywodraeth. Bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru ar unrhyw faterion sy'n codi.

Ychwanegodd Mr Page ar 31 Rhagfyr 2019, mai amcangyfrif y lefel cyllido oedd 94%, roedd yr amddiffyniad ecwiti wedi gwneud elw o £38 miliwn ers ei sefydlu, ac roedd y mantoli cyfredol wedi gwneud elw o £9 miliwn ers ei sefydlu.

Nodwyd yr adroddiad ac ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y pwyllgor yn nodi'r adroddiad ar elfennau amrywiol y Fframwaith Rheoli Risg, diogelwch ecwiti a'r strategaeth fantoli gyfredol.
(b) Cafodd y Pwyllgor wybod am y risg o'r diwygiad RPI posibl a'r gweithred cytbwys a gymerwyd i leihau'r risg yn ogystal â chostau.

102. **CYFUNO BUDDSODDIADAU YNG NGHYMRU**

Rhoddodd Mr Latham drosolwg o'r adroddiad oedd yn dangos cynnydd PPC. Mae paragraff 1.08 yn dangos y ddarpariaeth o is-gronfa ecwiti'r farchnad sy'n codi drwy'r PPC a'r dyraniad asedau ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd yn cynyddu o 6% i 10% (neu £200 miliwn). Bydd Mr Latham a Mrs Fielder yn cynrychioli'r Pwyllgor a'r mater hwn yng Ngweithgor Swyddogion Cymru.

Gofynnodd Mr Latham am farn y Pwyllgor os ddylai'r is-grŵp marchnadoedd preifat arfaethedig gael portffolio ar wahân ar gyfer buddsoddi effeithiol o ystyried bod dyraniad penodol o fewn strategaeth fuddsoddi Cronfa Bensiynau Clwyd. Eglurodd Mr Latham mai'r ddau faes blaenoriaeth arfaethedig ar gyfer yr is-gronfa effaith marchnadoedd preifat y PCC yw tai fforddiadwy a newid hinsawdd. Un o'r meysydd y gallai'r Gronfa ofyn i gael eu cynnwys yw'r meysydd economaidd, yn edrych ar fusnesau bach a chanolig i fuddsoddi er mwyn creu swyddi yn yr ardal leol.

Dywedodd Mr Hibbert nad oedd yn fodlon gyda'r ymadrodd "tai fforddiadwy". Roedd yn credu'n gryf bod angen cyfeirio'n benodol at yr angen am elfen gymdeithasol. Cytunodd y Cyng. Williams yn gryf bod angen diffiniad gwahanol ac mwy eglur.

Gofynnodd y Cyng. Mullin pe gallai'r meysydd ar gyfer cynhwysiant gael eu ehangu os byddai'r rhain yn dod i'r fei wrth i amser fynd ymlaen. Cadarnhaodd Mr Latham y gellid ychwanegu ac ehangu.

Daeth y pwyllgor i'r casgliad eu bod yn cefnogi'r elfennau newid hinsawdd, yn cefnogi tai fforddiadwy yn amodol ar ehangu'r diffiniad i sicrhau bod hyn yn cynnwys gofyniad cymdeithasol, ac yr hoffent i'r portffolio gynnwys elfen leol yn canolbwyntio ar economi Cymru. Cytunodd Mr Latham y byddai'n bwydo dymuniadau'r Pwyllgor yn ôl i'r PPC.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.
(b) Trafododd y pwyllgor y cread o gronfa effaith a buddsoddiadau blaenoriaeth.

103. **DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU**

Dywedodd Mr Latham y cynhelir Cyfarfod Bwrdd Cynghori'r Cynllun ar 3 Chwefror ond nid oes unrhyw nodiadau cyfarfod ffurfiol wedi cael eu cyhoeddi eto.

Amlygodd Mr Latham y newid allweddol i'r Polisi Llywodraethu sy'n cynnwys amcan sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch data a seiberdroseddu; nodwyd

hyn ar dudalen 141 – *Sicrhau bod cyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data, systemau a gwasanaethau'r Gronfa wedi'u diogelu a'u cynnal.*

Atgoffodd Mr Latham y Pwyllgor i gwblhau eu ffurflenni hunan-asesu ac ychwanegodd bod gan Mrs Fielder gopïau caled ar gael i'w cwblhau oes oedd well ganddynt wneud hynny.

Mynychodd y Cyng. Hughes Gynhadledd Llywodraethu CLlL ar 23 a 24 Ionawr. Dywedodd ei fod yn ddigwyddiad defnyddiol iawn gyda thrafodaethau am McCloud ond ni chafwyd eglurhad am y cefndir a fyddai wedi bod yn ddefnyddiol.

Rhoddodd Mrs Williams drosolwg cryno yn egluro bod McCloud yn achos gwahaniaethu ar sail oed ac roedd dyfarniad yn ymwneud â dynion tân a chynlluniau pensiwn cyfreithiol oedd yn datgan bod pobl iau a roddwyd mewn cynlluniau newydd, dan anfantais. Roedd pobl yn achwyn bod hyn yn gwahaniaethu ar sail oed a chafodd hyn ei gadarnhau, felly roedd angen datrys yr achos. Cytunodd y Llywodraeth bod angen i holl gynlluniau y sector cyhoeddus ystyried hyn, gan gynnwys Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae'n debygol y bydd angen i'r Gronfa weithredu datrysiad, gan olygu gwirio os yw aelodau penodol yn well allan ar yr hen gynllun neu'r cynllun newydd, gan ystyried mai dyma'r dull a ddarparwyd i holl aelodau a oedd yn weithredol o 1 Ebrill 2012 ac o fewn 10 mlynedd o ymddeol. Mae'n bosibl i hyn gael ei ymestyn i holl aelodau a oedd yn weithredol ar 1 Ebrill 2012 waeth beth yw eu hoedran. Er ei bod yn bosibl i hyn gynyddu costau cyllido (fel y trafodwyd mewn eitem cynharach) mae'n debygol o gael llawer mwy o effaith materol ar weinyddiaeth, oherwydd yr angen i ailgyfrifo buddion ar gyfer nifer o aelodau sydd wedi gadael neu ymddeol ers 2012.

Mae hefyd yn effeithio ar gyflogwyr gan fod y Gronfa angen casglu newidiadau oriau rhan amser gan gyflogwyr o Ebrill 2014, a fydd yna'n cael ei ddiweddaru ar system weinyddu'r Gronfa. Eglurodd Mrs Williams, er na fydd y datrysiad yn debygol o gael ei weithredu tan 2022 ar y cynharaf, bydd y tîm gweinyddol yn dechrau diweddaru'r systemau er mwyn i'r system fod yn gyfredol ac i'r tîm fod yn barod. Disgwylir y bydd angen ailgyfrifo buddion hanesyddol a gwneud taliadau yn unol â hynny (i bensiynwyr presennol).

Awgrymodd y Cyng. Rutherford y byddai'r gynhadledd dau ddiwrnod wedi gallu cael ei gwblhau mewn un diwrnod, ac roedd hefyd yn cytuno gyda'r Cyng. Hughes mewn perthynas ag eglurder ar McCloud. Awgrymodd Mrs McWilliam y gellir darparu hyfforddiant pellach ar McCloud ar y diwrnod hyfforddiant oedd wedi cael ei drefnu ar gyfer y Pwyllgor a'r Bwrdd ar 18 Mawrth. Croesawodd y pwyllgor y cyfle am hyfforddiant pellach.

Hysbysodd Mrs McWilliam y Pwyllgor bod Seminar Buddsoddi'n Gyfrifol yr Awdurdod Lleol ar 8 Gorffennaf yn Swydd Hertford.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor wedi ystyried y diweddariad a gwneud sylwadau. Cytunodd y Pwyllgor i ddychwelyd eu ffurflenni dadansoddiad o anghenion hyfforddi erbyn 19 Chwefror fel y cyfeiriwyd ym mharagraff 1.07 yr adroddiad.
(b) Cymeradwyodd y Pwyllgor y Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfio, gan gynnwys yr amcan newydd mewn perthynas â seiberdroseddu, y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 1.06 yr adroddiad a'i atodi yn Atodiad 2.

104. **DIWEDDARIAD GWEINYDDU A CHYFATHREBU**

Cyflwynodd Mrs Williams yr adroddiad. Dywedodd bod y tîm yn adrodd ar ofynion cyfreithiol ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) bob mis, bod gan bob Dangosydd Perfformiad Allweddol amserlen a bod rhaid i'r tîm lynu at yr amserlen yn gyfreithiol. Ar hyn o bryd, roedd y Gronfa yn darparu gofynion DPA ar gyfer 7 o brosesau'r Gronfa gan gynnwys ymddeoliadau a marwolaethau ac ati. Mae'r tîm yn monitro faint o amser mae'n cymryd i adrodd am wybodaeth aelod ac yna ei weithredu, fodd bynnag, weithiau yr aelod sy'n rheoli hyn h.y. mae'n cymryd wythnosau iddynt ymateb. Amlygodd Mrs Williams y pwysigrwydd o gasglu syniadau a safbwyntiau'r Pwyllgor ar gyfer DPA eraill ac mae hyn yn rhywbeth y gellir ei ddatblygu dros amser.

Gofynnodd y cadeirydd am adnoddau ac os oedd angen staff ychwanegol. Dywedodd Mrs Williams petai pethau'n aros fel y maent, yna bydd y nifer o staff yn iawn, ond gan fod diwygiadau diweddar mewn rheoliadau a chyhoeddiadau achosion llys, mae hyn wedi arwain at waith ychwanegol ar gyfer y tîm. Mae hyn yn golygu bod angen monitro adnoddau a rheolaeth llif gwaith yn agos.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor wedi ystyried y diweddariad a gwneud sylwadau.

105. **DIWEDDARIAD AR FUDDSODDI AC ARIANNU**

Rhoddodd Mrs Fielder ddiweddariad cryno ar fuddsoddi ac ariannu gan wneud y pwyntiau allweddol canlynol;

- Roedd hi'n deall bod blaenoriaethau'r cynllun busnes ar gyfer 2019/20 bron a'u cwblhau gyda'r mwyafrif o dasgau ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn.
- Yn dilyn canlyniadau'r prisiad, mae nifer o'r risgiau buddsoddi ac ariannu ar y gofrestr risg wedi cael eu lleihau mewn gwerth cymharol ac mewn rhai achosion ar y lefelau targed.

Nodwyd yr adroddiad ac ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor wedi ystyried a nodi'r adroddiad ar gyfer cyfrifoldebau dirprwyedig.

106. **DIWEDDARIAD AR YR ECONOMI, STRATEGAETH FUDDSODDI A CHRYNODEB RHEOLWYR**

Rhoddodd Mr Harkin ddiweddariad ar y coronafeirws a goblygiadau hyn yng nghyd-destun y gronfa bensiynau. Dywedodd bod y marchnadoedd wedi gweld cwymp sylweddol yn Tsieina a'r marchnadoedd oedd yn codi i ddechrau, fodd bynnag mae'r marchnadoedd wedi adfer ers hynny. Roedd yr effaith uniongyrchol ar y marchnadoedd ecwiti a bond yn destun barn. Dywedodd pe byddai cwymp sylweddol, gwirioneddol yn y marchnadoedd, roedd gan y Gronfa amddiffyniad drwy'r fframwaith rheoli risg ac arian. Pwysleisiodd Mr Harkin y cwestiwn mwyaf oedd os oes effaith economaidd mawr i ddilyn h.y. sawl gwlad sy'n dibynnu ar Tsieina i adeiladu a phrynu pethau ar eu cyfer o ran gweithgynhyrchu, er enghraifft Apple, ac felly gall fod effaith ehangach megis ar farchnad stoc yr Unol Daleithiau.

Ychwanegodd bod gwerth y Gronfa dros £2 biliwn ar ddiwedd mis Rhagfyr. Mae'r Gronfa yn mynd trwy newidiadau yn y strategaeth fuddsoddi ac yn eu gweithredu ac mewn sefyllfa iach er gwaethaf cyfnewidioldeb y farchnad.

Nodwyd yr adroddiad ac ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor wedi trafod a gwneud sylwadau ar y diweddariad ar y Farchnad a'r Economi ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2019, sy'n gosod y llwyfan ar gyfer y Strategaeth Fuddsoddi a'r Crynodeb Perfformiad Rheolwyr.
(b) Bod y Pwyllgor wedi trafod a gwneud sylwadau ar y Strategaeth Fuddsoddi a'r Crynodeb Perfformiad Rheolwr ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2019.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf. Cynhelir cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor ar 18 Mawrth ynghyd â sesiynau hyfforddi yn dilyn y cyfarfod. Daeth y cyfarfod i ben am 1pm.

……………………………………

**Y Cadeirydd**